Mae'r Daflen Ffeithiau hon yn ymwneud â chwynion ynghylch treth y cyngor. Dylid ei darllen ochr yn ochr â'r Weithdrefn Gwynion.

Cyngor Sir Caerfyrddin sy'n gyfrifol am bennu eich bil a chasglu'r taliad. I wneud hynny rhaid i'r cyngor weithio o fewn y ddeddf a'r rheoliadau perthnasol a chanllawiau'r llywodraeth.

Gall y Weithdrefn Gwynion:

- edrych ar gwynion ynghylch methiant y cyngor i roi gwybodaeth briodol i chi ynghylch band eich eiddo, eich bil, eich hawl i wneud apêl neu gamau i'w cymryd cyn mynd i'r llys
- gwirio bod camau gorfodaeth a gymerwyd gan y cyngor yn deg ac yn unol â'r rheolau
- ystyried materion megis oedi afresymol cyn gweithredu, methu â chydnabod eich apêl, methu â chadw cofnodion priodol, methu â chyfathrebu'n briodol neu wneud camgymeriadau wrth brosesu taliadau.

Ni all y Weithdrefn Gwynion:

- prisio eich eiddo at ddibenion treth y cyngor
- newid y band y mae eich eiddo wedi'i gynnwys ynddo
- newid gwerth band treth y cyngor sy'n berthnasol i chi
- addasu eich bil na'ch taliadau
- atal y cyngor rhag cymryd camau gorfodaeth yn eich erbyn
- edrych ar gŵyn lle mae, neu yr oedd, hawl i wneud apêl yn erbyn bil treth y cyngor i Dribiwnlys Prisio Cymru.

Treth gyffredinol yw treth y cyngor sy'n helpu i dalu am wasanaethau lleol. Nid tâl am wasanaethau unigol y gallech chi heb fod eu hangen neu heb gael budd ohonynt mohono. Ni fydd gennych felly hawl i ostyngiad oherwydd nad ydych yn derbyn budd personol o wasanaeth lleol neilltuol.

Asiantaeth y Swyddfa Brisio sy'n pennu eich band ar gyfer y dreth. Os credwch fod y band yn anghywir dylech gysylltu â'ch swyddfa brisio leol drwy'r Llinell Gymorth 0845 6001748. Mae mwy o wybodaeth ar gael o gyrchu http://www.voa.gov.uk/

Mae gennych hawl cyfreithiol i wneud apêl yn erbyn nifer o benderfyniadau yn ymwneud â threth y cyngor. Os credwch fod swm eich bil yn anghywir neu nid chi yw'r sawl sy'n gyfrifol am y bil, dylech yn y lle cyntaf ysgrifennu i'r cyngor. Os ydych yn dal i fod yn anfodlon gyda chanlyniad hynny mae'n bosib y bydd gennych hawl i wneud apêl yn erbyn penderfyniad y cyngor i **Dribiwnlys Prisio Cymru**. Gellir cael mwy o wybodaeth o gyrchu: http://www.valuation-tribunals-wales.org.uk/

Mae cyngor annibynnol a di-dâl ynghylch apelio yn erbyn bil treth y cyngor ar gael yn swyddfa leol Cyngor ar Bopeth. Ceir manylion y swyddfa ar y wefan: www.citizensadvice.org.uk

Mae gwefan y cyngor hefyd yn cynnwys gwybodaeth am weinyddu treth y cyngor. Cyrchwch: http://www.carmarthenshire.gov.uk/Cymraeg/cyngorademocratiaeth/trethycyngor/Pages/Home.aspx